Allwedd i'ch Cartref

Datgloi gwybodaeth am ble rydych chi'n byw a sut rydych chi'n byw.

Cynhadledd Flynyddol Anabledd Dysgu Cymru 2012

Straeon go iawn

Trafodaethau

Fideos

Gweithdai

Siaradwyr

Arddangoswyr

Dydd Mawrth 13 Tachwedd 2012 – 9:45am-4:30pm

Dydd Mercher 14 Tachwedd 2012 – 9:30am-4:15pm

Casnewydd, De Cymru

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Anerchwyr • Dydd Mawrth 13 Tachwedd

- **Tai – beth ydy'r dewisiadau?** - Mae John Puzey, Shelter Cymru, yn edrych ar y sefyllfa tai yng Nghymru heddiw a'r heriadau yr ydym yn eu wynebu.
- **Byw gyda Chefnogaeth** - Bydd Dewis Cyntaf yn rhoi trosolwg o Fyw gyda Chefnogaeth i bobl ag anabledd dysgu, yn cynnwys straeon gan rai o'u tenantiaid.
- **Agosach at Gartref** - Edwin Jones Ph.D. yn disgrifio sut y mae'r Bartneriaeth Agosach at Gartref arloesol yn anelu at wella ansawdd darpariaeth gwasanaeth i bobl ag anableddau dysgu ac ymddygiad heriol.
- **Rhannu Bywydau** - Tim Southern, ategi Cynllun Rhannu Bywydau, yn disgrifio cyfleoedd a manteision byw gyda Gofalwyr Rhannu Bywydau yng Nghymru.

Gweithdai • Dydd Mawrth 13 Tachwedd

1 **Dylunio tai i bobl ag Awtistiaeth**
Mae'r gweithdy hwn yn edrych ar y ffactorau allweddol i'w hystyried wrth ddylunio tai i bobl ag Awtistiaeth. Fe fyddwn yn holi pam ei bod yn bwysig dylunio'r amgylchedd gywir, rhannu ein profiadau o greu cynlluniau wedi'u hadeiladu i bwrpas sydd wedi eu dylunio a'u datblygu ar y cyd. **Wedi'i hwyluso gan Nick Haake, y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol**

2 **Cael y bywyd yr ydych ei eisiau**
Bydd staff ac aelodau KeyRing yn rhannu sut y mae eu model, o'r enw Rhwydwaith, yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain a pha wahaniaeth y mae'n gallu ei wneud. Gellir addasu model sylfaenol KeyRing i weddu i anghenion y rhan fwyaf o bobl ac mae'n golygu bod gan bobl reolaeth go iawn dros eu bywydau, y gallau i ddatblygu sgiliau a dod yn llai dibynnol ar staff.

3 **Cartrefi i Gymru – Trosolwg o'r Papur Gwyn Tai**
Mae Cartrefi i Gymru:Papur Gwyn am Fywydau a Chymunedau Gwell yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu datblygu dulliau newydd o helpu pobl i gwrdd â'u hanghenion tai. Bydd y gweithdy hwn yn rhoi trosolwg o'r Papur Gwyn gan ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r cynigion yn ei olygu i bobl bregus. **Wedi'i hwyluso gan Nicola Evans, Cymorth Cymru**

4 **Awgrymiadau Cyfreithiol i'ch Amddiffyn Chi a'ch Teulu**
Ydych chi wedi meddwl am y dyfodol? Oes gennych chi ewyllys gywir? Mae'r gweithdy hwn yn edrych ar gynllunio ewyllys a chynllunio bywyd i sicrhau bod eich anwyliaid wedi'u diogelu yn y dyfodol.
Wedi'i hwyluso gan Claire Davis, Howells Legal

5 **Fy Nghartref Delfrydol**
Gweithdy ymarferol i helpu pobl i feddwl am beth sy'n bwysig iddyn nhw wrth ddewis rhywle i fyw. Gan edrych yn greadigol ar bwy rydych eisiau byw gyda nhw, ble rydych chi eisiau byw, sut fath o eiddo yr hoffech ei gael a beth fydd yn gwneud eich cartref newydd yn berffaith i chi.
Wedi'i hwyluso gan Caerphilly People First

6 **Rhentu gan Landlord Preifat**
Mae'r gweithdy hwn yn edrych ar y dewis o rentu gan Landlord Preifat; beth mae hynny'n ei olygu, y camau, y manteision a'r anawsterau potensial sydd angen i chi eu hystyried. **Wedi'i hwyluso gan David Gould, The Landlords Letting Company**

7 **Hawliau a Chyfrifoldebau Tenantiaeth**
Yn y gweithdy hwn bydd First Choice yn siarad am hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid sy'n byw mewn llety rhent. Bydd y gweithdy'n esbonio pa wasanaethau y gall tenantiaid eu disgwyl gan eu landlordiaid a beth sy'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gadw at reolau eu cytundeb tenantiaeth. **Wedi'i hwyluso gan Katherine Howells a Nigel Bowen, Dewis Cyntaf Cyf**

8 **Ymwybyddiaeth o Ddiwygiadau Lles**
Darparu trosolwg o'r prif elfennau yn y Ddeddf Diwygio Lles.
Wedi'i hwyluso gan Helen Evans, Rheolwr Diwygio Lles, Cyngor Caerdydd

9 **Beth ydy'r dewisiadau tai i bobl hŷn ag anabledd dysgu?**
Bydd y gweithdy hwn yn edrych yn gryno ar anghenion newidiol pobl ag anabledd dysgu wrth iddyn nhw heneiddio a'r ffactorau sy'n cyfrannu at heneiddio'n dda. Bydd y gweithdy'n disgrifio amrediad o ddewisiadau tai i bobl hŷn ag anabledd dysgu a bydd yn cyflwyno sawl astudiaeth achos o gefnogaeth tai da.
Wedi'i hwyluso gan Lesley Barcham, BILD

Anerchwyr • Dydd Mercher 14 Tachwedd

- **Cymryd rhan mewn Tendro Cystadleuol** - mae Sue Lloyd-Selby yn edrych ar beth mae'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau eu gwneud, a'r pethau y dylent efallai eu gwneud wrth ymgysylltu mewn comisiynu a thendro cystadleuol.
- **Technoleg wedi'i Bersonoleiddio** - mae Steve Barnard o Hft yn edrych ar sut y gall technoleg wedi'i bersonoleiddio helpu pobl i ddod yn llai dibynnol ar eraill a gwella ansawdd bywyd pobl.
- **Pwy sydd eisiau teimlo'n fwy diogel?** - Mae tîm ymchwil 'Edrych ar Gamdriniaeth' yn siarad am gamdriniaeth a diogelwch yn y cartref ac yn y gymuned.
- **Y Bartneriaeth Rheini a Darparwyr** - Mirus (cyn hynny Ymddiriedolaeth Tai Cyfle) yn rhannu sut y mae gweithio gyda theuluoedd, a'u cynnwys, yn sicrhau bod posibiliadau yn dod yn reali.
- **Cyfranogi** – mae Consortiwm Bywydau Cymunedol yn siarad am gefnogi newid yn gadarnhaol a grymuso eraill i fyw'r bywyd y maen nhw'n ei ddewis.

Gweithdai • Dydd Mercher 14 Tachwedd

1 Mapio Cymunedol

Ydych chi'n adnabod pobl yn eich stryd chi? Ydych chi'n gwybod ble mae eich canolfan gymunedol a beth sy'n digwydd yno? Mae'r gweithdy hwn yn cynnig syniadau am ble i ddechrau a sut i ddarganfod beth sy'n digwydd yn eich ardal neu yn ardal rhywun yr ydych yn ei gefnogi.

Hwylusir gan Tracey Drew, Hyfforddwr a Hwylusydd Annibynnol

2 Coginio wedi'i wneud yn hwyl ac yn hawdd

Does dim rhaid i goginio fod yn boen. Bydd yr arddangosfa ymarferol hon yn rhoi ryseitiau a chynghorion i chi a fydd yn ddefnyddiol ac yn hawdd i'w hail adrodd yn eich cartref eich hun.

Hwylusir gan Gaynor Jones, Tastebuddies

3 Eich cadw chi a'ch cartref yn ddiogel

Bydd Heddlu Gwent yn esbonio camau syml y gall pobl eu dilyn i osgoi dod yn ddioddefwyr trosedd. Fe fyddan nhw hefyd yn rhannu beth maen nhw'n ei wneud i sicrhau bod eu gwasanaethau yn fwy hygyrch ac fe fyddan nhw'n rhoi cyfle i chi weld un o'u gorsafoedd symudol newydd. **Hwylusir gan Heddlu Gwent**

4 Gwneud eich cartref yn ynni effeithlon

Bydd y gweithdy hwn yn rhoi cynghorion i chi ar arbed ynni yn eich cartref. Bydd hefyd yn cyflwyno cynllun tlodi tanwydd newydd Llywodraeth Cymru, Nest. Cynllun i unrhyw un yng Nghymru sy'n derbyn budd-daliadau prawf modd ac sy'n edrych ar eu cymhwysedd i dderbyn gwelliannau am ddim i'r cartref, lleihau costau ynni a gwella effeithlonrwydd. **Hwylusir gan Ymddiriedolaeth Arbed Ynni**

5 Sgiliau Arian

Mae Sgiliau Arian Barclays yn rhaglen genedlaethol sy'n helpu pobl ag anableddau dysgu i ddatblygu a gwella eu sgiliau, gwybodaeth a hyder ariannol. Bydd y gweithdy hwn yn rhoi gwybodaeth i chi ac yn cynyddu eich gallu i reoli eich arian yn well. **Hwylusir gan Barclays Bank PLC**

6 Cymryd Risgiau Cadarnhaol

Doedd asesiadau risg erioed wedi'u bwriadu i atal pobl rhag byw eu bywydau. Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar sut y gall model gwneud penderfyniadau gyda chefnogaeth ein helpu i wneud pethau newydd, dysgu o gamgymeriadau a bod mor ddiogel â phosibl, ac felly rhoi cyfle inni fod yn fwy annibynnol a hyderus. **Hwylusir gan Hilary Jones, Cartrefi Cymru**

7 Ymwybyddiaeth o Ddiwygiadau Lles

Darparu trosolwg o'r prif elfennau yn y Ddeddf Diwygio Lles.

Hwylusir gan Helen Evans, Rheolwr Diwygio Lles, Cyngor Caerdydd

8 Pwy sydd yn fy Nghefnogi a Sut

Mae'r gweithdy rhyngweithiol hwn yn edrych ar sut y mae'r Siarter Staff, offeryn 'Cydweddu Cefnogaeth', Cynlluniau Cyfweliadau a Gwerthusiadau yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod unigolion yn rhan o'r penderfyniad ynghylch pwy sy'n eu cefnogi a sut.

Hwylusir gan Lisa Morgan, Dimensions a Catherine, cefnogir gan Dimensions

Ffioedd y Gynhadledd

	13 November	14 November	Both Days
Heb fod yn aelodau	£97.50	£97.50	£195.00
Aelodau Anabledd Dysgu Cymru	£75.00	£75.00	£150.00
Pobl ag Anabledd Dysgu	£26.40	£26.40	£52.80
Gofalwr Teulu neu Ofalwr Cyflogedig yn cefnogi person ag anabledd dysgu	£26.40	£26.40	£52.80

Disgownt Grŵp ar gael: disgownt o 10% ar gael ar ffioedd cynhadledd i bob archeb a wneir ar gyfer 5 neu ragor o bobl.
(Prisiau yn cynnwys TAW)

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Dydd Mawrth 13 Tachwedd 2012 – 9:15 - 10:00am
Mae croeso i holl aelodau Anabledd Dysgu Cyrmu, a rhai nad ydynt yn aelodau ymuno â ni yn ein Cafarfod Cyffredinol Blynyddol.
Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch os gwelwch yn dda â Joanne Moore, Rheolwraig Llywodraethu ac Adnoddau Dynol ar 029 2068 1168

Aelodaeth Anabledd Dysgu Cymru

Mae aelodau Anabledd Dysgu Cymru'n cael cyfraddau arbennig ar gyfer ein holl gynadleddau, digwyddiadau a hyfforddiant.

Pan ddewch yn aelod byddwch hefyd yn derbyn copïau'n rheolaidd o'n cyhoeddiadau, Llais a Llais update.

Am wybodaeth ynglŷn ag aelodaeth holwch aelod o'r tîm Hyfforddiant a Digwyddiadau wrth archebu eich lle neu mae croeso i chi ein ffonio unrhyw bryd ar 029 2068 1160

Anabledd Dysgu Cymru
41 Cilgant Lambourne
Parc Busnes Caerdydd
Llanisien
Caerdydd
CF14 5GG

029 2068 1160
harriett.johnson@learningdisabilitywales.org.uk
www.learningdisabilitywales.org.uk

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Diolch yn fawr i Hartley's Colourprint am eu haelioni yn argraffu'r daflen hon

Hartley's Colourprint
highest quality colourprint